Y dyn bach a wnaeth bethau mawr

(gweledigaeth / penderfyniad)

Dyn byr, bywiog oedd Isambard Kingdom Brunel. A dweud y gwir roedd ei enw'n hirach na'i gorff! Daeth yn beiriannydd byd-enwog. Nid yn unig roedd yn dylunio ei ddyfeisiadau ond roedd hefyd yn eu hadeiladu. Ond doedd pob un o'i ddyfeisiadau ddim yn llwyddiant. Yn wir roedd llawer iawn ohonyn nhw'n fethiant llwyr. Ond daliodd ati.

Ei broject cyntaf oedd turio twnnel i fynd o dan afon Tafwys. Hwn oedd y twnnel cyntaf yn y byd i fynd o dan unrhyw afon. Credai'r bobl ei fod yn wallgo. "Dyn gorffwyll ydi Brunel," meddai'r bobl. "Mae'r twnnel yn siŵr o roi dan bwysau'r afon." Yn wir, roedden nhw'n iawn. Dyna'n union a ddigwyddodd. Pan oedd y twnnel ar fin cael ei gwblhau dechreuodd y dŵr o'r afon lifo iddo. Twnnel ar gyfer ceffylau oedd hwn i fod, ond wnaethpwyd mo'i ddefnyddio bryd hynny gan ei fod mor beryglus. Ond fe'i defnyddiwyd ymhellach ymlaen pan ddaeth yn rhan o reilffordd tanddaearol dinas Llundain.

Doedd ei siom ddim i gael y llaw uchaf arno. Ymhen rhai blynyddoedd wedyn, ym 1831, cododd bont grog enfawr. Yn ymyl dinas Bryste mae dyffryn sy'n 200 metr o hyd ac yn 70 metr o ddyfnder. Dyfeisiodd Brunel bont grog i groesi'r dyffryn. Cododd ddau dŵr enfawr o boptu'r dyffryn a'r cwestiwn ar wefusau pawb oedd, "Sut mae'r bont yn mynd i sefyll heb ddim i'w dal a'i chynnal yn y canol?" Hon ydi pont enwog Clifton ac mae'r bont grog ar ei thraed heddiw.

Y cam nesaf oedd adeiladu rheilffyrdd. Cododd reilffordd enwog y "Great Western", gyda'r twnnel sy'n ddwy filltir o hyd yn Swydd Surrey.

Byddai wrth ei fodd yn gwneud triciau efo plant. Pan oedd wrthi'n perfformio un tric efo criw o blant aeth hanner sofren felen yn sownd yn ei gorn gwddf. Bu bron iddo â mygu i farwolaeth. Bu'n rhaid galw'r meddyg a bu hwnnw wrthi am hydoedd yn ceisio cael y sofren felen o'i wddf. Llwyddodd yn y diwedd. Ar ôl y digwyddiad hwn penderfynodd Brunel ei fod am ddyfeisio teclyn i gael y sofren o wddf rhywun petai hynny'n digwydd wedyn.

Dyma i chi ddyfais oedd hon! Peiriant enfawr a'r person yn cael ei strapio yn y peiriant ac yna ei droi ben i waered nes byddai'r

sofren wedi dod allan. Roedd y peiriant ei hun yn ddigon i ddychryn neb rhag rhoi sofren nag unrhyw ddarn arian arall ar gyfyl ei geg.

Cofir am Brunel hefyd fel adeiladydd llongau. Adeiladodd dair llong enfawr. Y gyntaf oedd y *Great Western*. Ymhen ychydig flynyddoedd roedd y llong hon wedi mynd ar dân. Yr ail long iddo godi oedd y *Great Britain*. Llong enfawr oedd hon hefyd gyda dros 1,000 metr o garped ar ei llawr. Ond ymhen rhai blynyddoedd roedd hon hefyd mewn trafferthion. Er i Brunel geisio ei hatgyweirio ni fu'n llwyddiant mawr. Gellir gweld hon yn un o ddociau dinas Bryste heddiw. Yna, ym 1858 adeiladodd y *Great Eastern*. Hon oedd y llong fwyaf o'i bath am hanner can mlynedd. Pan lansiwyd y llong am y tro cyntaf ffrwydrodd y boiler a bu farw chwech o'r morwyr. Bu'n rhaid ei thywys yn ôl i'r doc ac yno y bu am flwyddyn. Pan lansiwyd y llong eilwaith ymhen blwyddyn roedd Brunel wedi marw.

Er ei fod wedi marw ers blynyddoedd maith mae ei waith i'w weld ar hyd a lled Prydain. Un o'i hoff ddywediadau oedd, "Rwy'n cynllunio pethau yn y ffordd orau posibl, nid yn y ffordd rataf." Dyna pam mae ei waith wedi goroesi i'n dyddiau ni.

Adnod: "Gofynnwch ac fe roddir i chwi, ceisiwch; ac fe gewch." Mathew 7:7

Gweddi: Dowch i ni roi diolch heddiw am ddyfeisiadau pobl yn y gorffennol. Mae'r dyfeisiadau hyn wedi'n helpu ni i fyw bywyd gwell a llawnach heddiw. Amen.

Trafod:

- Pa mor bwysig ydi dal ati pan fydd pethau ddim yn mynd yn iawn?
- Chwiliwch am fwy o hanes Brunel.